## ATODLEN 2

## Y WEITHDREFN AR GYFER APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD Y CORFF PRIODOL

### Dogfennau

**19.**—(1) Gall unrhywbeth y mae'n ofynnol ei anfon at berson at ddibenion apêl o dan yr Atodlen hon —

(a) gael ei drosglwyddo i'r person hwnnw yn bersonol; neu

(b) gael ei anfon i'r person hwnnw yn ei gyfeiriad priodol drwy'r post; neu

(c) gael ei anfon ato drwy ffacsimili neu bost electronig neu ddulliau tebyg eraill sy'n gallu cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun y cyfathrebiad, ac os felly ystyrir bod y ddogfen wedi'i hanfon pan gaiff ei derbyn ar ffurf ddarllenadwy.

(2) Cyfeiriad priodol person yw'r cyfeiriad a nodir yn yr hysbysiad apêl neu'r ateb, neu unrhyw gyfeiriad arall a gaiff ei hysbysu wedi hynny i'r swyddog priodol.